# Arweinydd Tîm Cynnwys Digidol

**Heno/Prynhawn Da**

## Tinopolis - Llanelli

Mae Tinopolis Cymru yn chwilio am Arweinydd Tîm Cynnwys Digidol creadigol, trefnus a hyderus yn olygyddol i arwain gwaith dyddiol y tîm yn Llanelli. Bydd deiliad y swydd yn datblygu ac yn cynhyrchu cynnwys digidol-yn-gyntaf ar draws y cwmni, yn bennaf ar gyfer Heno a Prynhawn Da, gan gefnogi cynyrchiadau eraill a chyfleoedd comisiynu newydd.

Mae'r rôl yn cynnwys troi syniadau yn fformatau cryf, cynllunio sesiynau ffilmio, briffio cyfranwyr a chydweithwyr, a goruchwylio cynnwys o'r cysyniad cyntaf hyd at gyhoeddi. Bydd yr arweinydd hefyd yn cynhyrchu cynnwys pwrpasol ar gyfer YouTube, fideo ffurf fer, podlediadau a phodlediadau fideo, ac yn cynghori timau ar agoriadau, strwythur a gofynion technegol pob llwyfan.

Disgwylir i'r unigolyn gynnal safonau uchel o ran cywirdeb, hygyrchedd, tôn, hawliau a chysondeb gweledol; defnyddio data perfformiad a dealltwriaeth o gynulleidfaoedd i wella cynnwys; rheoli sawl blaenoriaeth; a chefnogi datblygiad a pherfformiad aelodau'r tîm.

Mae Cymraeg llafar ac ysgrifenedig cryf, profiad sylweddol o gynhyrchu cynnwys aml-lwyfan, gwybodaeth gadarn am lwyfannau digidol, barn olygyddol hyderus a sgiliau arwain yn hanfodol. Mae profiad teledu, cynnwys byw, llifoedd gwaith, archifau ac offer deallusrwydd artiffisial yn ddymunol. Mae'r swydd yn llawn amser, gyda gwaith penwythnos achlysurol, a'r cyflog yn dibynnu ar brofiad perthnasol.

| | |
|---|---|
| **Lleoliad:** | Tinopolis, Stryd y Parc, Llanelli, Sir Gaerfyrddin. SA15 3YE |
| **Cyflog:** | yn ddibynnol ar brofiad |
| **Dyddiad Cau:** | 4 Medi 2026 |

### Manylion pellach

| | |
|---|---|
| **Oriau Gwaith:** | Cyfartaledd o 40 awr yr wythnos. Oherwydd natur y swydd, disgwylir hyblygrwydd, gan gynnwys penwythnosau a gwyliau banc pan fo angen. |
| **Gwyliau:** | Yn ychwanegol at wyliau banc statudol, bydd hawl pro rata i 25 diwrnod o wyliau dros flwyddyn. |
| **Pensiwn:** | Gall staff cyflogedig ymuno â Chynllun Pensiwn Tinopolis, yn ddarostyngedig i delerau'r cynllun. Ar hyn o bryd, mae Tinopolis yn cyfrannu 3% o'r cyflog sylfaenol a disgwylir cyfraniad staff o 5%. |
| **Ceisiadau:** | Dylid anfon llythyr cais a CV at swyddi@tinopolis.com, gan nodi 'Arweinydd Tîm Cynnwys Digidol' yn glir. Dyddiad ac amser cau: 4 Medi 2026. |

Yn unol â gofynion Deddf Lloches a Mewnfudo 1996, rhaid i bob ymgeisydd fod yn gymwys i fyw a gweithio yn y DU. Bydd yn ofynnol cael tystiolaeth ddogfennol o gymhwyster gan ymgeiswyr fel rhan o'r broses recriwtio.

Gwybodaeth bersonol a gasglwn amdanoch chi pan fyddwch yn ymgeisio am swydd yn Tinopolis: Wrth wneud cais am swydd, bydd disgwyl i chi ddarparu CV fel rhan o'r broses. Byddwn yn cadw copi o'ch CV ar ffeil am gyfnod o dair blynedd. Pe bai swydd debyg yn codi yn y cyfnod hwn, byddwn yn defnyddio'r wybodaeth er mwyn cysylltu â chi. Gallwch ofyn i ni ddileu eich data personol o'n ffeiliau ar unrhyw adeg. Am ragor o wybodaeth am ein Polisi Diogelu Data, gweler

**http://www.tinopolis.com/privacy-notice/**